

1872
Ysgol Fusnes
**Aberystwyth**
Business School

Astudiaethau israddedig yn

# Ysgol Fusnes Aberystwyth

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Graddau sydd wedi'u hachredu'n broffesiynol | t.2 |
| Ein cyrsiau | t.4 |
| Disgrifiadau cryno o'r modiwlau yn y flwyddyn gyntaf | t.18 |
| Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg | t.20 |
| Cyfleoedd allgyrsiol | t.24 |
| Cyfleoedd byd-eang | t.26 |
| Sut i ymgeisio | t.28 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2024
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Rhagfyr 2023), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.



# Croeso

Rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried Ysgol Fusnes Aberystwyth fel un o'ch dewis sefydliadau er mwyn astudio am radd. Mae ein Hysgol yn ymfalchïo mewn dysgu'r damcaniaethau a'r arferion diweddaraf oll o fyd busnes. Gan ein bod yn ysgol fusnes fechan a hynod o effeithiol, rydym yn gallu canolbwyntio ar y meysydd allweddol bwysig a sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf er mwyn eich helpu i gyflawni eich amcanion.

Mae ein Hysgol yn ymfalchïo mewn dysgu'r damcaniaethau a'r arferion diweddaraf oll o fyd busnes. Gan ein bod yn ysgol fusnes fechan a hynod o effeithiol, rydym yn gallu canolbwyntio ar y meysydd allweddol bwysig a sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf er mwyn eich helpu i gyflawni eich amcanion.

Pan fyddwch yn dewis astudio gydag Ysgol Fusnes Aberystwyth, byddwch yn byw ac yn gweithio mewn amgylchedd ysgol gyda thiwtoriaid a fydd yn cyfoethogi eich addysg â'u brwdfrydedd, eu sgiliau a'r wybodaeth y maent wedi gweithio'n galed i'w hennill. Nod ein rhaglenni yw datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ac entrepreneuriaid, a byddwn yn sicrhau eich bod yn rhan o amgylchedd lle gallwch ddysgu, ymwneud a chyd-greu atebion er mwyn diwallu anghenion amgylchedd busnes sy'n gynyddol gymhleth ac sy'n newid yn chwim.

Mae'r Ysgol yn cynnig darpariaeth lawn, gan eich galluogi i archwilio elfennau Busnes a Rheolaeth, Cyfrifeg a Chyllid, Chyllid Busnes, Economeg, Marchnata a Rheoli Twristiaeth o fewn y cwrs gradd o'ch dewis.

Gallwn eich sicrhau bod ein cyrsiau ymhlith y rhai gorau sydd ar gael yn y DU, a'u bod yn cael eu profi â chyflogwyr o bwys a sefydliadau proffesiynol amlwg er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ar gyfer y byd go iawn. Mae ein cyrsiau i gyd wedi'u cydnabod a'u hachredu'n broffesiynol gan y prif gyrff proffesiynol, gan gynnwys: ACCA, CIMA, TMI, CIM, CMI a mwy. Yn ystod eich cyfnod yma, cewch bob cyfle i ddatblygu CV sy'n ddeniadol i gyflogwyr, sydd bellach yn disgwyl ichi fod â sgiliau 'technegol' ynghyd â'r cymwyseddau hynny megis y gallu i arwain a rheoli adnoddau, chwilfrydedd creadigol a sgiliau cyfathrebu sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd dda, fwy na heb.

Yn sgil hynny rydym yn ennill clod hynod o nodedig yn rheolaidd, gan gynnwys:

- **Ymhlith y 5 uchaf yn y DU am Ansawdd y Dysgu ym maes Astudiaethau Busnes a Rheolaeth** (Canllaw Prifysgolion Da, Y Times a'r Sunday Times 2024).
- **Ymhlith y 5 uchaf yn y DU am Brofiad Myfyrwyr ym maes Cyfrifeg a Chyllid** (Canllaw Prifysgolion Da, Y Times a'r Sunday Times 2024).
- **3ydd yn y DU am foddhad cyffredinol myfyrwyr ym maes Marchnata** (Canllaw Prifysgolion Da, Y Times a'r Sunday Times 2024).
- **100% am foddhad cyffredinol myfyrwyr ar gyfer ein cwrs N400 Cyfrifeg a Chyllid** (ACF 2022).

Er mwyn deall mwy am sut mae hyn yn cael ei gyflawni, y peth gorau ichi ei wneud yw ymweld â ni i ddarganfod mwy. Mae sawl cyfle ichi wneud hyn, trwy gyfrwng Diwrnodau Agored cyn ymgeisio, Diwrnodau Agored i Ymgeiswyr ar ôl ymgeisio, neu trwy ymweld â ni'n anffurfiol. Sut bynnag y dewiswch ymweld, cewch yr un croeso cynnes gan dîm o academyddion busnes hynod o broffesiynol a fydd yn canolbwyntio ar eich datblygiad ac yn rhoi cymorth hyderus ichi ddatblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau y mae arnoch eu hangen er mwyn llwyddo.

**Yr Athro Andrew Thomas**
**Pennaeth yr Ysgol Fusnes**





# Graddau sydd wedi'u hachredu'n broffesiynol

Gan ddibynnu ar eich cynllun gradd a'r modiwlau y byddwch yn eu dewis, mae'n bosibl y gallwch gael eithriadau tuag at gymwysterau proffesiynol wedi ichi gwblhau eich gradd.



## Eithriadau Cyfrifeg a Chyllid

**Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)**

Mae ACCA wedi rhoi achrediad llawn i Ysgol Fusnes Aberystwyth ar gyfer y cwrs BSc Cyfrifeg a Chyllid (N400). Bydd gan fyfyrwyr y gallu i raddio a hwythau eisoes wedi cyrraedd lefel cyfrifydd rhannol gymwysedig, a hynny trwy gofrestru ag ACCA. Bydd myfyrwyr yr Ysgol Fusnes hefyd yn cael gostyngiad ar eu ffioedd cofrestru.

Mae ein cynllun gradd BSc Cyfrifeg a Chyllid (N400) wedi cael ei achredu gan ACCA.

Ar hyn o bryd mae eithriadau ar gael ar gyfer y papurau canlynol ar y lefel sylfaenol:

- F1 Accountant in Business
- F2 Management Accounting
- F3 Financial Accounting
- F4 Corporate and Business Law
- F5 Performance Management
- F6 Taxation
- F7 Financial Reporting
- F8 Audit and Assurance
- F9 Financial Management

**Sylwer:** mae angen marc pasio o 50% yn yr holl fodiwlau perthnasol.

**Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli (CIMA)**

Mae'r cyrsiau canlynol wedi'u hachredu gan CIMA:

- y cynllun gradd anrhydedd sengl BSc Cyfrifeg a Chyllid
- cynlluniau gradd anrhydedd Cyfrifeg a Chyllid prif bwnc
- y cynllun gradd anrhydedd sengl BSc Busnes a Rheolaeth
- cynlluniau gradd anrhydedd Busnes a Rheolaeth prif bwnc

**Sylwer:** mae angen marc pasio o 50% yn yr holl fodiwlau perthnasol.

**Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig (ACA)**

Mae ein cynllun gradd anrhydedd sengl BSc Cyfrifeg a Chyllid a'n cynlluniau gradd anrhydedd Cyfrifeg a Chyllid prif bwnc wedi'u hachredu gan ACA.

**Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (IACEW)**

**Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)**

Mae ein cynlluniau gradd anrhydedd sengl, cyfun ac is-bwnc BSc Cyfrifeg a Chyllid wedi'u hachredu gan CIPFA. Ar hyn o bryd mae eithriadau ar gael ar gyfer y papurau canlynol:

Lefel Tystysgrif:

- Financial Accounting (rhaid astudio Financial Accounting 1, 2 a 3)
- Management Accounting (rhaid astudio Management Accounting 1, 2 a 3)
- Financial Reporting (rhaid astudio Financial Accounting 1, 2 a 3 )
- Audit and Assurance (rhaid astudio The Role and Practice of Audit)

Lefel Diploma:

- Financial Management (rhaid astudio Introduction to Financial Management and Corporate Finance)
- Taxation (rhaid astudio Taxation)

**Y Sefydliad Yswiriant Siartredig (CII)**

Mae ein holl raddau Cyfrifeg a Chyllid, Busnes a Rheolaeth, Marchnata ac Economeg yn cael: 30 o gredydau ar lefel Diploma Uwch a 25 o gredydau nad ydynt yn benodol i uned ar lefel Diploma.

**Sefydliad yr Ysgrifenyddion a'r Gweinyddwyr Siartredig (ICSA)**

Mae ein cynllun gradd anrhydedd sengl BSc Cyfrifeg a Chyllid a'n cynlluniau gradd anrhydedd Cyfrifeg a Chyllid prif bwnc wedi'u hachredu gan ICSA.

## Eithriadau Marchnata

**Y Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM)**

Mae ein cynlluniau gradd anrhydedd sengl, prif bwnc a chyfun BSc Marchnata wedi'u hachredu gan CIM yn rhan o'r cynllun Dual Awards. Felly mae myfyrwyr wedi'u heithrio o 50% o arholiadau Diploma Proffesiynol CIM.

## Eithriadau Rheolaeth

**Y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI)**

Mae gan Fusnes a Rheolaeth achrediad gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig. Bydd y graddedigion hyn hefyd yn ennill Diploma Lefel 5 y CMI.

## Eithriadau Twristiaeth

**Y Sefydliad Rheoli Twristiaeth (TMI)**

Llais Rheoli Cyrchfan- www.tmi.org.uk

# Ein cyrsiau

## Anrhydedd sengl


| | |
|---|---|
| Busnes a Newid Hinsawdd | t.5 |
| Busnes a Rheolaeth | t.6 |
| Cyfrifeg a Chyllid | t.8 |
| Cyllid Busnes | t.9 |
| Economeg | t.10 |
| Economeg a Newid Hinsawdd | t.11 |
| Economeg Busnes | t.12 |
| Marchnata | t.13 |
| Marchnata Digidol | t.14 |
| Rheoli Twristiaeth | t.15 |
| Rheoli Twristiaeth Antur | t.16 |
| Opsiynau Graddau Cyfun, prif/is-bwnc a cyfrwng Cymraeg | t.17 |




# Busnes a Newid Hinsawdd

45% ar gael drwy'r Gymraeg

CMI

BSc (Anrh) | FN71 | 3 blynedd

Mae busnesau yn gyfranwyr allweddol at allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond maent hefyd yn rhan o'r ateb. Mae busnesau na fyddant yn ymateb i her yr hinsawdd yn debygol o wynebu costau uwch o ran trethi carbon a llai o gwsmeriaid. Ar y llaw arall, mae busnesau mwy blaengar sy'n addasu trwy ddatgarboneiddio a datblygu cynnyrch gwyrdd yn debygol o gynyddu eu perfformiad ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol - eu sylfaen driphlyg.

Bydd y radd Busnes a Newid Hinsawdd yn eich paratoi i ddod yn arweinwyr busnesau'r dyfodol a fydd yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy ddatblygu strategaethau ac arferion ystyrlon o ran cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Ar y radd hon, byddwch yn cyfuno gwybodaeth am wyddoniaeth newid yn yr hinsawdd â'r sgiliau sydd eu hangen i arwain busnes llwyddiannus. Mae'r radd yn archwilio ffyrdd creadigol y gall busnesau ymateb i her a chyfleoedd yr argyfwng hinsawdd presennol, a bydd yn rhoi ichi wybodaeth berthnasol sy'n benodol i'r pwnc, ynghyd â'r sgiliau a'r priodoleddau rhyngddisgyblaethol, rhyngbersonol sydd eu hangen er mwyn creu byd mwy cyfiawn a chynaliadwy.

Os mai eich bwriad yw cael dylanwad mwy cadarnhaol ar eich byd, bydd y cynllun hwn yn gychwyn cadarn ar y daith honno.

**Cyflogadwyedd**

Ar ôl graddio o'r radd hon byddwch mewn sefyllfa dda i ddilyn gyrfa mewn rheoli, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd, yn y DU a thramor. Byddwch hefyd yn gymwys ar gyfer gyrfaoedd mewn meysydd cysylltiedig, megis addysg amgylcheddol, ymgynghori neu gadwraeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- The Science of Climate
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Understanding the Economy
- Data Analytics
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes.

**Yr ail flwyddyn:**

- Rheolaeth Adnoddau Dynol
- Llywodraethu Newid Hinsawdd: modiwl efelychu
- Gweithrediadau a Rheoli'r Gadwyn Cyflenwi
- Dulliau Ymchwil
- Corporate Governance, Risk and Ethics.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Hir
- Arweinyddiaeth Strategol
- Organisational Psychology.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
50% gwaith cwrs, 50% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

# Busnes a Rheolaeth

63% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | N122 | 3 blynedd

Mae byd menter yn addasu o hyd. Gall effaith newidiadau yn yr amgylchedd busnes o ran digwyddiadau economaidd, newidiadau mewn arferion cyfrifeg, newidiadau o ran rheoleiddio a'r amgylchedd cyfreithiol, penderfyniadau marchnata a datblygu strategaethau busnes olygu'r gwahaniaeth rhwng llwyddo a methu i gwmni.

Yn Ysgol Fusnes Aberystwyth, byddwch yn dysgu sut i ymateb i'r digwyddiadau hyn drwy ddatblygu eich gwybodaeth am elfennau hanfodol y byd busnes, gan gynnwys rheoli adnoddau dynol, ymddygiad sefydliadol, strategaeth a gweithrediadau busnes, marchnata, a dadansoddi data busnes. Bydd ein tîm o academyddion arbenigol a gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant yn datblygu eich dealltwriaeth o reolaeth ym maes busnes a masnach yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Yn ystod y cwrs hwn, byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu maes rheoli ac effaith gyfun y materion economaidd, ariannol, dynol a chyfreithiol y mae rheolwyr yn ymdrin â hwy o ddydd i ddydd. Byddwch hefyd yn datblygu'r sgiliau i ddadansoddi materion rheoli yng nghyswllt blaenoriaethau'r cwmni, ffactorau allanol a'r hyn a ystyrir yn "arfer da" ar hyn o bryd.

Byddwch yn elwa o:

- gweithio gyda busnesau yn y gymuned leol ac yn ehangach i ddatblygu eich sgiliau fel ymarferwr a chynorthwyo eich datblygiad academaidd
- dysgu gan ddarlithwyr sydd ag amrywiaeth eang o brofiad busnes a rheolaeth a diddordebau ymchwil sy'n cael eu cyfuno â'r addysgu.

**Cyflogadwyedd**

Bydd gradd mewn Busnes a Rheolaeth yn eich galluogi i ddethol o amrywiaeth o opsiynau gyrfa drwy'r byd busnes, diwydiant a masnach, neu i weithio yn y sector cyhoeddus. Mae llawer o'n graddedigion yn dod o hyd i gyflogaeth lwyddiannus fel rheolwyr iau mewn sefydliadau rhyngwladol neu gwmnïau amlwladol fel Goldman Sachs, PricewaterhouseCoopers, Llywodraeth Cymru a Marks & Spencer.

CMI

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes
- Understanding the Economy
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Data Analytics.

**Yr ail flwyddyn:**

- Rheolaeth Marchnata
- Rheolaeth Adnoddau Dynol
- Gweithrediadau a Rheoli'r Gadwyn Cyflenwi
- Entrepreneurship and New Venture Creation
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Arweinyddiaeth Strategol
- Digital Business, Leadership and Management
- Financial Strategy
- Organisational Psychology
- Traethawd Hir.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**N12F** Blwyddyn sylfaen integredig.
**N12T** Cynllun atodol.





# Cyfrifeg a Chyllid

24 ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | N400 | 3 blynedd

Bydd y radd BSc mewn Cyllid a Chyfrifeg yn eich paratoi ar gyfer gyrfa broffesiynol ym maes gwasanaethau cyfrifeg neu gyllid, drwy ganolbwyntio yn bennaf ar gyfrifeg ariannol, rheoli cyfrifeg a chyllid, gyda chyfraith busnes, moeseg busnes a threthiant wedi'u plethu drwy'r rhaglen gyfan.

Mae ein staff dysgu yn cynnwys ymchwilwyr ac ymarferwyr yn y diwydiant, a fydd yn eich cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth eang o'r cyd-destun gweithredol ac effaith mesur a datgelu gwybodaeth ariannol ar lif arian, polisïau mewnol a systemau ariannol. Bydd hyn yn eich galluogi i fagu dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio data ariannol er mwyn dylanwadu ar reolwyr, buddsoddwyr a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau; a sut y gall y modd y caiff gwybodaeth ariannol ei chyflwyno effeithio ar hyd bywyd (a phroffidioldeb/cynaliadwyedd) cwmnïau neu sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd sy'n cael ei hachredu gan brif gyrff cyfrifeg y byd
- cael eich addysgu a'ch mentora gan ddarlithwyr sy'n gyfrifwyr cymwysedig ac yn ymarferwyr, ac sydd â llawer o brofiad yn y diwydiant yn ogystal â phrofiad academaidd
- cael eich cyflwyno i faterion cyfreithiol sy'n berthnasol i'r amgylchedd busnes
- gweithio gyda Refinitiv Workspace sy'n rhoi cyfle i fanteisio ar ddata ariannol a dangosyddion economaidd cwmnïau, yn ogystal â newyddion a dadansoddi, i roi ichi brofiad dysgu mwy cyfoethog a rhyngweithiol
- cael eich eithrio o arholiadau proffesiynol prif gyrff arholi cyfrifeg y DU.

**Cyflogadwyedd**
Mae cwmnïau cyfrifeg, banciau buddsoddi a sefydliadau ariannol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa i gyd-fynd â phob diddordeb, gan gynnwys gwaith archwilio a sicrwydd traddodiadol, ymgynghori ym maes rheoli, cyllid corfforaethol, ymgynghori TG, cynllunio treth a methdalu. Rydym wedi ffurfio cysylltiadau â'r prif gyflogwyr Cyfrifeg a Chyllid. Yn ogystal â gosod ein myfyrwyr mewn cwmnïau cyfrifeg traddodiadol gan gynnwys Deloitte, PwC, E&Y, a KPMG, mae ein graddedigion mwyaf diweddar wedi dod o hyd i gyflogaeth gyda sefydliadau adnabyddus eraill fel y BBC, Barclays, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Lidl, i enwi rhai.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Accounting and Finance for Specialists
- Understanding the Economy
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Data Analytics.

**Yr ail flwyddyn:**

- Intermediate Financial Accounting
- Intermediate Management Accounting
- Corporate Governance, Risk and Ethics
- Corporate Finance and Financial Markets
- Business Law for Managers
- Taxation.

**Y flwyddyn olaf:**

- Advanced Financial Accounting
- Advanced Management Accounting
- Investments and Financial Instruments
- Accounting and Finance: Analysis and Application
- Theory and Practice of Auditing.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
30-40% gwaith cwrs, 70-60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
**N40F** Blwyddyn sylfaen integredig.
**N40T** Cynllun atodol.



# Cyllid Busnes

26 ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | N310 | 3 blynedd

Mae'r byd busnes yn heriol ac yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar gyllid. Mae'n fyd amrywiol lle mae gwahanol ffactorau'n dylanwadu ar berfformiad a rhagolygon busnes. Yn Aberystwyth, nod ein rhaglen yw rhoi ichi fframwaith cydlynol i ymdrin â materion megis strategaethau ariannol, y modd y gweinyddir gwasanaethau ariannol a rheoleiddio arian a chyllid.

Dysgir elfennau cyllid y rhaglen er mwyn eich ysbrydoli a'ch dysgu am gymwysiadau damcaniaethol ac ymarferol sylfaenol cyfrifeg er mwyn i sefydliadau allu gwneud penderfyniadau ariannol ar sail gwybodaeth.

Byddwch hefyd yn archwilio'r meysydd canlynol ar y cwrs hwn: cyllid rheoli, trethi, hanfodion buddsoddi, rheoli portffolios a chyllid byd-eang.

Byddwch yn elwa o:

- cael eich eithrio o arholiadau cyrff cyfrifeg proffesiynol y DU
- gwella'ch cyfleoedd gyrfaol trwy bartneriaethau â busnes, diwydiant a masnach
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n gwneud ymchwil, a fydd yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn y maes pwnc
- gweithio gyda Refinitiv Workspace sy'n rhoi cyfle i fanteisio ar ddata ariannol a dangosyddion economaidd cwmnïau, yn ogystal â newyddion a dadansoddi, i roi ichi brofiad dysgu mwy cyfoethog a rhyngweithiol
- clywed amrywiol safbwyntiau gan ymwelwyr gwadd o'r diwydiant fydd yn dod i roi darlithoedd
- y cyfle i ymuno â'n Cymdeithas Fuddsoddi er mwyn cymryd rhan mewn ymryson rhwng prifysgolion Cymru ac Iwerddon - cystadleuaeth y mae tîm Aberystwyth wedi ei hennill yn y blynyddoedd diweddar.

**Cyflogadwyedd**
Mae cyfleoedd gwaith i raddedigion â gradd mewn Cyllid Busnes yn cynnwys gweithio mewn meysydd fel adwerthu a bancio buddsoddi, ymgynghori ym maes rheoli a chynllunio treth. Mae nifer sylweddol o'n graddedigion yn mynd ymlaen i ymuno â chynlluniau hyfforddi cyllid i raddedigion ac yn dod o hyd i waith gyda chwmnïau a sefydliadau cyllid yn y DU ac yn rhyngwladol heb drafferth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Accounting and Finance for Specialists
- Understanding the Economy
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Economic Theory and Policy
- Data Analytics.

**Yr ail flwyddyn:**

- Microeconomics Theory and Policy
- Macroeconomics Theory and Policy
- Intermediate Financial Accounting
- Corporate Governance, Risk and Ethics
- Corporate Finance and Financial Markets.

**Y flwyddyn olaf:**

- Investments and Financial Instruments
- Trade and International Monetary Systems
- Financial Technology and Business Success
- Growth, Development and Sustainability.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
30-40% gwaith cwrs, 70-60% arholiadau.

**Ar gael hefyd:**
**N31F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Economeg

32% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | L100 | 3 blynedd

Mae'r cwrs Economeg yn Aberystwyth yn canolbwyntio ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar fywyd bob dydd, gan gynnwys creu swyddi, pwysau chwyddiannol, materion yn ymwneud â masnach ryngwladol, proses cystadleuaeth mewn busnes, arloesi a thwf, datblygiad marchnadoedd newydd, diogelu adnoddau naturiol a llunio polisi gan y llywodraeth.

Byddwch yn datblygu'r gallu i ddadansoddi data rhifiadol ac i ddatrys problemau - sgiliau gwerthfawr a fydd yn caniatáu ichi ddeall sut mae pobl, busnesau, sefydliadau a llywodraethau yn gwneud penderfyniadau, a goblygiadau'r cyfryw benderfyniadau i unigolion a chymdeithas yn gyffredinol.

Mae'r gwaith ymchwil a wneir yn Ysgol Fusnes Aberystwyth yn sail i'n haddysgu ar agweddau sy'n ymwneud â masnach a busnes rhyngwladol, economeg datblygu a dadansoddi polisi, economeg llafur ac economeg ranbarthol, economeg wledig ac amaethyddol, economeg ecoleg a'r amgylchedd ac econometreg gymwysedig, sy'n golygu y byddwch yn dysgu am y syniadau a'r cysyniadau diweddaraf.

Byddwch yn elwa o:

- clywed amrywiol safbwyntiau gan ymwelwyr gwadd o'r diwydiant fydd yn dod i roi darlithoedd
- gwella'ch cyfleoedd gyrfaol trwy bartneriaethau â busnes, diwydiant a masnach
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n gwneud ymchwil, a fydd yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn y maes pwnc
- cymryd rhan mewn cystadlaethau busnes.

**Cyflogadwyedd**
Bydd y radd BSc mewn Economeg yn cynnig cyfleoedd mewn meysydd megis dadansoddi polisi neu weinyddiaeth lywodraethol yn y sector cyhoeddus, y sector bancio a chyllid neu yn y sector preifat. Gallech hefyd weithio i gyrff anllywodraethol a sefydliadau gwirfoddol. Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio yng Ngwasanaethau Economaidd y Llywodraeth, Trysorlys EF, y Cyngor Prydeinig, grŵp FDM, Nexus Financial Consulting, a Kiva.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Economic Theory and Policy
- Understanding the Economy
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Data Analytics.

**Yr ail flwyddyn:**
- Microeconomics Theory and Policy
- Macroeconomics Theory and Policy
- Managerial Economics
- Econometrics
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**
- Contemporary Issues in Economic Policy
- Environmental Economics
- History of Economic Thought
- Trade and International Monetary Systems
- Traethawd Hir.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Ar gael hefyd:**
**L10F** Blwyddyn sylfaen integredig.



# Economeg a Newid Hinsawdd

24% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | FL71 | 3 blynedd

Gall economeg chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy roi dealltwriaeth o strwythurau cymell defnyddwyr a chwmnïau, gan esbonio sut a pham y gallai llywodraethau ymyrryd â marchnadoedd economaidd er mwyn cyflwyno polisïau a sefydliadau sy'n ystyriol o'r hinsawdd. Bydd astudio Economeg a Newid Hinsawdd yn gychwyn ar daith lawn boddhad o gael effaith gadarnhaol ar eich byd ac yn eich paratoi i ddod yn arweinwyr y dyfodol yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Trwy astudio economeg, byddwch yn magu dealltwriaeth o fethiannau marchnadoedd 'confensiynol' i fynd i'r afael yn effeithiol â newid hinsawdd. Gan ddefnyddio isddisgyblaethau economeg amgylcheddol ac ecolegol, bydd myfyrwyr yn datblygu gwerthfawrogiad o sut y gellir datblygu polisïau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn darparu cymhellion megis cynlluniau masnachu carbon a threthi i ostwng allyriadau.

Ar y cwrs hwn, byddwch yn cyfuno gwybodaeth am y wyddoniaeth sy'n sail i newid hinsawdd ag ystod eang o arfau economaidd a fydd yn eich galluogi i ddeall a datblygu polisïau a chymhellion sy'n cefnogi'r trawsnewid i fod yn economi sy'n niwtral o ran carbon. Byddwch yn archwilio ffyrdd creadigol o ddatblygu polisïau i ymateb i her a chyfleoedd yr argyfwng hinsawdd sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Bydd y cwrs hefyd yn rhoi ichi wybodaeth bwnc-benodol berthnasol ynghyd â sgiliau rhyngbersonol a rhyngddisgyblaethol a'r priodoleddau angenrheidiol i greu byd mwy cyfiawn a chynaliadwy.

**Cyflogadwyedd**
Ar ôl graddio, byddwch mewn sefyllfa dda i ddilyn gyrfa ym maes newid yn yr hinsawdd - ei reoli, ei addasu, a'i liniaru - yn y DU a thramor. Byddwch hefyd yn gymwys ar gyfer gyrfaoedd mewn meysydd megis addysg amgylcheddol ac ymgynghori neu gadwraeth.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Climate Change: Impacts, Perceptions, Adaptations
- Data Analytics
- Economic Theory and Policy
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- The Science of Climate
- Understanding the Economy.

**Yr ail flwyddyn:**
- Microeconomic theory and practice
- Llywodraethu Newid Hinsawdd: modiwl efelychu
- Macroeconomics Theory and Practice
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**
- Environmental Economics
- Traethawd Hir
- Growth, Development and Sustainability.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Cyfleoedd i astudio dramor:** Oes.

# Economeg Busnes

41% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | L113 | 3 blynedd

Bydd ein gradd mewn Economeg Busnes yn eich paratoi i allu datblygu datrysiadau busnes effeithiol gan ddefnyddio gwybodaeth economaidd ymarferol. Byddwch yn dod i ddeall y ffactorau economaidd sy'n dylanwadu ar lwyddiant busnes a'r penderfyniadau a wneir yn fanwl. Byddwch hefyd yn meithrin y sgiliau dadansoddi, cyfrifiadura a chyfathrebu y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi, yn y sectorau preifat a chyhoeddus fel ei gilydd.

Yn Ysgol Fusnes Aberystwyth, rydym yn canolbwyntio ar roi syniadau, gwybodaeth a dulliau economaidd ar waith yn ymarferol, a hynny yng nghyd-destun sefyllfaoedd proffesiynol lle mae angen gwneud penderfyniadau. Byddwch yn datblygu'r gallu i gymhwyso gwybodaeth economaidd i faterion yr ymdrinnir â hwy mewn nifer o ddisgyblaethau sy'n gysylltiedig â pholisi busnes. Mae'r cynllun hwn hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o ystadegau busnes, econometreg a delweddu data, yn hytrach na'r ymdriniaeth fathemategol o gysyniadau a phrofion damcaniaethol yn unig.

Byddwch yn datblygu dealltwriaeth resymegol o economeg fel arf asesu dadansoddol, ac yn datblygu'r sgiliau proffesiynol i ddefnyddio micro-economeg a macro-economeg yn eu cyd-destun mewn amgylcheddau proffesiynol.

Byddwch yn elwa o:

- clywed amrywiol safbwyntiau gan ymwelwyr gwadd o'r diwydiant fydd yn dod i roi darlithoedd
- gwella'ch cyfleoedd gyrfaol trwy bartneriaethau â busnes, diwydiant a masnach
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n gwneud ymchwil, a fydd yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn y maes
- cymryd rhan mewn cystadlaethau busnes.

**Cyflogadwyedd**
Bydd y radd BSc mewn Economeg Busnes yn cynnig cyfleoedd mewn meysydd megis dadansoddi polisi neu weinyddiaeth lywodraethol yn y sector cyhoeddus, y sector bancio a chyllid neu yn y sector preifat. Gallech hefyd weithio i gyrff anllywodraethol a sefydliadau gwirfoddol. Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio yng Ngwasanaethau Economaidd y Llywodraeth, Trysorlys EF, y Cyngor Prydeinig, grŵp FDM, Nexus Financial Consulting, a Kiva. Mae llawer hefyd wedi dilyn ymchwil ac astudiaethau pellach mewn addysg uwch.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Understanding the Economy
- Economic Theory and Policy
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Data Analytics
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid.

**Yr ail flwyddyn:**
- Microeconomics Theory and Policy
- Macroeconomics Theory and Policy
- Managerial Economics
- Rheolaeth Adnoddau Dynol
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**
- Environmental Economics
- Trade and International Monetary Systems
- Organisational Psychology
- Traethawd Hir.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**L11F** Blwyddyn sylfaen integredig.



# Marchnata

50% ar gael drwy'r Gymraeg

CIM The Chartered Institute of Marketing

## BSc (Anrh) | N500 | 3 blynedd

Mae'r radd BSc Marchnata yn Ysgol Fusnes Aberystwyth yn gwrs dynamig a chyffrous sy'n cyfuno elfennau o farchnata ac ymddygiad defnyddwyr, marchnata digidol, marchnata strategol, cynllunio, seicoleg, rheoli ac adnoddau dynol. Fe'i haddysgir gan arbenigwyr marchnata achrededig ac adnabyddus ac yn ystod y radd byddwch yn datblygu gwybodaeth gadarn am ddylanwadau allanol ar y byd marchnata a'r defnydd o dechnoleg a chyfryngau digidol, sy'n newid mor gyflym, at ddibenion marchnata.

Mae gyrfa ym maes marchnata yn ddewis dynamig ac egnïol, a'r maes ei hun yn llawn arloesi, creadigrwydd a gwneud penderfyniadau "greddfol" ar sail data. Bydd y rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol sydd ar ddechrau eu gyrfa yn y maes marchnata yn tueddu i fynd i faes marchnata digidol, ac rydym yn sicrhau ein bod yn rhoi ichi sgiliau digidol a thraddodiadol hanfodol sydd eu hangen er mwyn gallu cynnig gwerth i gwmnïau o'ch diwrnod cyntaf fel gweithiwr proffesiynol.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ganolfan Porth Graddedigion sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Marchnata Siartredig. Bydd hyn yn eich galluogi i raddio â dau gymhwyster.

Byddwch yn elwa o:

- clywed amrywiol safbwyntiau gan ymwelwyr gwadd o'r diwydiant fydd yn dod i roi darlithoedd
- dadansoddi astudiaethau achos, sefyllfaoedd byw a damcaniaethau marchnata sylfaenol i ddatblygu strategaethau marchnata ac ymgyrchoedd tactegol
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n gwneud ymchwil, a fydd yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn y maes pwnc.

**Cyflogadwyedd**
Mae marchnata yn bwysicach nag erioed o safbwynt perfformiad busnes. Mae gweithwyr proffesiynol yn y maes marchnata bellach yn arloesi ac yn dylanwadu ar fusnesau mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, ac o'r herwydd mae gyrfa yn y maes yn dal i fod yn ddewis gwych a gwahanol. Yn ddiweddar mae ein graddedigion wedi cael swyddi gyda chyrff megis Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Reckitt Benckiser (RB), EE, OneGTM, MediaCom a'r Dentsu Group (Carat).

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Principles of Tourism Management
- Data Analytics
- Understanding the Economy
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid.

**Yr ail flwyddyn:**
- Rheolaeth Marchnata
- Ymddygiad Defnyddwyr a Phrynwyr
- Marketing: Relationships and Customer Experience
- Applied Brand Management
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**
- Arweinyddiaeth Strategol
- Digital Marketing
- Marketing and Digital Marketing Communications
- Global Marketing
- Traethawd Hir Marchnata.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
60% gwaith cwrs, 40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**N50F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Marchnata Digidol

44% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | N590 | 3 blynedd

Trwy ddewis astudio'r radd Marchnata Digidol yn Ysgol Fusnes Aberystwyth byddwch yn sicrhau eich bod yn magu'r sgiliau diweddaraf mewn disgyblaethau megis Caffael Cwsmeriaid, Dadansoddi, Strategaeth eFasnach, Datblygu Digidol (yn cynnwys gwefannau, apiau, amgylcheddau cyfryngau cymdeithasol), Marchnata Cynnwys a Rheoli'r Berthynas â Chwsmeriaid yn Ddigidol.

Mae'r radd Marchnata Digidol yn Ysgol Fusnes Aberystwyth yn sicrhau bod gennych ddealltwriaeth lawn o'r modelau, y fframweithiau a'r methodolegau allweddol sy'n rhan gynhenid o'r ddisgyblaeth hon, ac mae'n eich galluogi i ddeall a chyfuno eich gwaith dysgu fel ei fod yn berthnasol i ystyriaethau a heriau cyfoes y ddisgyblaeth. Erbyn ichi orffen eich gradd, byddwch wedi eich arfogi â'r sgiliau a'r cymwyseddau y mae cyflogwyr heddiw yn edrych amdanynt, a byddwch mewn sefyllfa dda i ddatblygu'ch gyrfa.

Mae Ysgol Fusnes Aberystwyth wedi'i hachredu yn ganolfan Porth Graddedigion y Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM).

Byddwch yn elwa o:

- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n brofiadol yn academaidd ac fel ymarferwyr yn y diwydiant, ac sy'n ymwybodol o'r galw am raddedigion sydd â sgiliau technegol ac sy'n deall y farchnad
- archwilio'r technolegau y mae'r byd busnes yn eu defnyddio, a rhoi atebion busnes ar waith mewn modd effeithiol
- gallu astudio am gymhwyster CIM wrth ddilyn y cwrs gradd, neu gael eithriad o rai modiwlau CIM.

**Cyflogadwyedd**

Bydd y radd BSc Marchnata Digidol yn datblygu'r sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr, yn cynnwys meddwl mewn modd arloesol, datrys problemau yn greadigol, defnyddio dulliau arbrofol, gweithio fel tîm, a chanolbwyntio ar y defnyddiwr. Mae Marchnatwyr Digidol yn arloesi ac yn dylanwadu ar fusnes mewn amrywiaeth o ffyrdd ac mae'r cyfleoedd ar ddechrau gyrfa i raddedigion Marchnata yn parhau'n amrywiol ac yn fuddiol yn ariannol. Yn ddiweddar mae ein graddedigion wedi cael swyddi gydag Acorn Digital (Shanghai), TravelPerk (Barcelona), Next, The Drum (Llundain), McGregor Boyall (Manceinion), Reckitt Benckiser, EE, ac Aegis Network (Llundain).

CIM The Chartered Institute of Marketing

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes
- Web Design
- Information Security
- Data Analytics
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Understanding the Economy
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid.

**Yr ail flwyddyn:**

- Web Design and the User Experience
- Programming for the Web
- Ymddygiad Defnyddwyr a Phrynwyr
- Applied Brand Management
- Digital Research Methods
- Rheolaeth Marchnata.

**Y flwyddyn olaf:**

- Digital Marketing (Strategy)
- Digital Marketing Communications
- Digital Analytics
- Traethawd Hir Marchnata Digidol
- Arweinyddiaeth Strategol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
60% gwaith cwrs, 40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Rheoli Twristiaeth

47% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | N800 | 3 blynedd

Twristiaeth yw un o ddiwydiannau mwyaf cyffrous ein byd, ac mae'n un o'r rhai sy'n tyfu gyflymaf hefyd. Mae'n cynnwys llawer o ddarparwyr, yn eu plith atyniadau i dwristiaid, cyrchfannau, gwestai, cwmnïau hedfan, darparwyr gweithgareddau a chwmnïau trefnu teithiau. Nod y radd BSc Rheoli Twristiaeth yw rhoi ichi'r sgiliau academaidd a phroffesiynol i allu ymgymryd ag amrywiaeth o swyddi rheoli yn y sector.

Trwy ddewis astudio'r radd BSc Rheoli Twristiaeth yn Ysgol Fusnes Aberystwyth byddwch yn archwilio datblygiad, gweithrediad ac effaith twristiaeth ddomestig a rhyngwladol. Bydd eich astudiaethau yn canolbwyntio ar y materion cyfoes sy'n wynebu'r diwydiant, gan gynnwys y newid mewn tueddiadau yn y farchnad a'r sector antur sy'n prysur dyfu, yr heriau sy'n wynebu cyrchfannau, sut i reoli twristiaeth mewn modd mwy cynaliadwy a sut i farchnata'r sector yn effeithiol gan ddefnyddio dulliau cyfoes.

Byddwch yn elwa o:

- gradd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Rheoli Twristiaeth (TMI)
- teithiau diwrnod i gyrchfannau twristiaeth, yn dibynnu ar y modiwl a ddewisir
- teithiau astudio estynedig, yn dibynnu ar y modiwl a ddewisir
- gweithgareddau wythnos gyfan i gyrchfan yn y DU neu dramor.

**Cyflogadwyedd**

Mae ein cynlluniau gradd mewn Twristiaeth wedi'u hachredu gan y Sefydliad Rheoli Twristiaeth (TMI). Mae hyn yn golygu y gallwch fod yn hyderus y bydd y cwrs yn rhoi ichi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r profiad a fydd yn eich paratoi'n drylwyr ar gyfer gyrfa ym maes Rheoli Twristiaeth. Mae ein graddedigion wedi dod o hyd i gyflogaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Adventure Tours UK, Enterprise Cars, Marella Cruises, TUI, Click Travel, a Sykes Holiday Cottages.

tmi Tourism Management Institute www.tmi.org.uk

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Principles of Tourism Management
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Marchnata ac Ymarfer Cyfoes
- Data Analytics
- Understanding the Economy
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid.

**Yr ail flwyddyn:**

- Rheoli Cyrchfannau ac Atyniadau
- Adventure Tourism
- International Tourism in Practice
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Sustainable Tourism
- Tourism Development and Planning
- Tourism Marketing
- Traethawd Hir.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**N80F** Blwyddyn sylfaen integredig.

# Rheoli Twristiaeth Antur

36% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | N870 | 3 blynedd

Mae Twristiaeth Antur yn un o sectorau'r diwydiant twristiaeth sy'n tyfu gyflymaf. Bydd y radd BSc mewn Rheoli Twristiaeth Antur yn caniatáu ichi ryddhau a datblygu'ch sgiliau ym maes busnes, marchnata a rheoli twristiaeth antur ac atyniadau ymwelwyr. Mae'r rhaglen hon yn denu myfyrwyr o bob rhan o'r byd, sy'n arwydd o bwysigrwydd maes Rheoli Twristiaeth Antur ledled holl economïau'r byd - yn rhai datblygedig ac annatblygedig.

Wrth astudio'r cwrs gradd Rheoli Twristiaeth Antur, byddwch yn archwilio astudiaethau achos byw ac yn ystyried strategaethau marchnata effeithiol a pholisïau ar gyfer twristiaeth antur. Byddwch hefyd yn dysgu sut mae egwyddorion marchnata yn cael eu cymhwyso yn y diwydiant twristiaeth. Elfen unigryw o'r cwrs hwn yw'r sgiliau y byddwch yn eu datblygu, a achredir gan ddarparwyr allanol, a fydd yn gyfle ichi feithrin sgiliau awyr-agored a/neu ennill cymhwyster arweinydd awyr-agored a gydnabyddir yn genedlaethol. Ar ben hynny, gallwch fanteisio ar y cyfle i astudio'r modiwl dewisol profiad gwaith i wella'ch rhagolygon gyrfaol.

Byddwch yn elwa o:

- dilyn gradd a achredir gan y Sefydliad Rheoli Twristiaeth (TMI)
- ennill tystysgrif allanol ychwanegol gan ddarparwyr achrededig ym maes gweithgareddau awyr-agored ee cerdded, dringo, caiacio, plymio, beicio mynydd a sgïo
- teithiau astudio estynedig, yn dibynnu ar y modiwl a ddewisir
- gweithgareddau wythnos gyfan i gyrchfan yn y DU neu dramor.

**Cyflogadwyedd**
Erbyn diwedd y cwrs, byddwch chi wedi datblygu'r sgiliau fydd eu hangen arnoch i sefydlu a rhedeg menter ym maes twristiaeth sy'n canolbwyntio ar gynnig gwyliau wedi'u seilio ar weithgareddau antur awyr-agored. Mae ein graddedigion wedi dod o hyd i gyflogaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Adventure Tours UK, Enterprise Cars, Marella Cruises, TUI, Click Travel, a Sykes Holiday Cottages.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**
- Principles of Tourism Management
- Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Understanding the Economy
- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Data Analytics.

**Yr ail flwyddyn:**
- Rheoli Cyrchfannau ac Atyniadau
- Adventure Tourism
- International Tourism in Practice
- Dulliau Ymchwil
- Activity Certification.

**Y flwyddyn olaf:**
- Sustainable Tourism
- Adventure Tourism Management Dissertation
- Tourism Development and Planning
- Activity Certification.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.



# Graddau Cyfun

- **Busnes a Rheolaeth / Almaeneg** (BSc, 4 blynedd)
- **Busnes a Rheolaeth / Ffrangeg** (BSc, 4 blynedd)
- **Busnes a Rheolaeth / Sbaeneg** (BSc, 4 blynedd)
- **Busnes a Rheolaeth a Chyfrifiadura** (BSc, 3 blynedd)
- **Cyfrifeg a Chyllid / Busnes a Rheolaeth** (BSc, 3 blynedd)
- **Cyfrifeg a Chyllid / Economeg** (BSc, 3 blynedd)
- **Cyfrifeg a Chyllid / Marchnata** (BSc, 3 blynedd)
- **Cyfrifeg a Chyllid a Chyfrifiadura** (BSc, 3 blynedd)
- **Economeg / Busnes a Rheolaeth** (BSc, 3 blynedd)
- **Economeg a Chysylltiadau Rhyngwladol** (BSc, 3 blynedd)
- **Economeg a Gwleidyddiaeth** (BSc, 3 blynedd)
- **Marchnata / Busnes a Rheolaeth** (BSc, 3 blynedd)
- **Marchnata / Ffrangeg** (BSc, 4 blynedd)
- **Marchnata / Sbaeneg** (BSc, 4 blynedd)
- **Marchnata / Seicoleg** (BSc, 4 blynedd)
- **Mathemateg / Busnes a Rheolaeth** (BSc, 3 blynedd)
- **Mathemateg / Cyfrifeg a Chyllid** (BSc, 3 blynedd)
- **Mathemateg / Economeg** (BSc, 3 blynedd)
- **Rheoli Twristiaeth / Marchnata** (BSc, 3 blynedd)
- **Rheoli Twristiaeth Antur / Sbaeneg** (BSc, 4 blynedd)
- **Seicoleg a Busnes a Rheolaeth** (BSc, 3 blynedd)
- **Seicoleg a Marchnata** (BSc, 3 blynedd)
- **Y Gyfraith a Busnes a Rheolaeth** (LLB, 3 blynedd)
- **Y Gyfraith a Cyfrifeg a Chyllid** (LLB, 3 blynedd)

# Prif/is-bwnc

- **Daearyddiaeth Ddynol gyda Economeg** (BA, 3 blynedd)
- **Economeg gyda Daearyddiaeth Ddynol** (BSc, 3 blynedd)
- **Economeg gyda Gwleidyddiaeth** (BSc, 3 blynedd)
- **Gwleidyddiaeth Rhyngwladol gyda Economeg** (BA, 3 blynedd)

# Cyfrwng Cymraeg *

- **Cymraeg yn y Gweithle Proffesiynol / Busnes a Rheolaeth** (BA, 3 blynedd)

*Addysgir yn rhannol neu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

# Modiwlau y flwyddyn gyntaf

**(Blwyddyn 1 yn unig):** Dyma ddisgrifiadau cryno o'r modiwlau Blwyddyn Un a ddysgir yn Ysgol Fusnes Aberystwyth. Gweler y disgrifiadau o'r rhaglenni ar dudalennau 5 i 17 er mwyn gweld pa fodiwlau sydd wedi'u cynnwys yn eich rhaglen.

**Hanfonodion Rheloaeth a Busnes**
Cewch eich cyflwyno i'r cysyniadau damcaniaethol a'r goblygiadau ymarferol sy'n ymwneud â phobl mewn sefydliadau, y berthynas rhwng rheolaeth a'r sefydliad, a'r grymoedd mewnol ac allanol sy'n effeithio ar weithrediadau. Bydd arolwg o ddatblygiad hanesyddol y cysyniad a'r arfer o reoli yn cyflwyno cysyniadau grym, rheolaeth, atebolrwydd a chymhelliad a'u goblygiadau ymarferol, yn ogystal â meddylwyr a modelau allweddol ym maes rheolaeth.

**Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes**
Fe'ch cyflwynir i amrywiaeth o hanfodion marchnata a mathau cyfoes o farchnata, gan gynnwys y cymysgedd marchnata, segmentiad, brandio, ymddygiad cwsmeriaid, marchnata digidol, rheoli'r gadwyn gyflenwi a chyfathrebu marchnata. Byddwch yn archwilio hanes a natur marchnata fel disgyblaeth fusnes graidd a phwnc academaidd, a byddwch yn rhoi gwybodaeth am farchnata ar waith wrth ymchwilio i ffenomenâu a phroblemau go iawn ym myd busnes ac yn y gymdeithas.

**Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid**
Ym maes cyfrifeg ariannol, byddwch yn astudio strwythur a chyfansoddiad y fantolen a'r datganiad incwm, a sut i'w dehongli. Ym maes cyfrifeg reoli, byddwch yn cwmpasu cyfrifo costau gan arwain at ddadansoddiad Elw-Cost-Nifer. Ym maes cyllid, byddwch yn archwilio rheolaeth ariannol a chyllid corfforaethol, cyfrifiadau o werth presennol net, a'r prif ffynonellau cyllid a ddefnyddir gan gwmnïau.

**Understanding the Economy**
Byddwch yn astudio sylfaen ddamcaniaethol microeconomeg a macroeconomeg, sef dwy gonglfaen economeg. Mewn microeconomeg astudir elfennau unigol yr economi: unigolion, teuluoedd, cwmnïau a'r rhyngweithio rhyngddynt. Mewn macroeconomeg astudir ymddygiad cyfanredau economaidd: treuliant, gwariant, gwariant buddsoddi, cynnyrch mewnwladol crynswth, chwyddiant a diweithdra.

**Principles of Tourism Management**
Byddwch yn archwilio cwmpas a strwythur y diwydiant twristiaeth, yn ogystal â'r modd y mae'n gweithredu a'i arwyddocâd, ar lefel leol, cenedlaethol a byd-eang. Mae twristiaeth yn cael ei ddadansoddi fel gweithgarwch economaidd, a byddwch yn archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y modd y mae'n cael ei gynllunio, ei ddatblygu, ei farchnata a'i reoli, yn ogystal â'i effaith. Cyflwynir ystyriaethau cynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ym maes twristiaeth. Bydd teithiau maes neu daith astudio breswyl wedi'u cynnwys.

**Data Analytics**
Byddwch yn datblygu sgiliau ymarferol o ran technegau meintiol, gan gynnwys dadansoddi ystadegau. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd dulliau meintiol o ran bod yn sail i ddadansoddi a gwneud penderfyniadau da er mwyn rhedeg sefydliadau mewn modd effeithiol. Byddwch yn datblygu ac yn gwella eich sgiliau rhifyddol, mathemategol ac ystadegol, ac yn defnyddio'r rhain i ddatrys problemau ymarferol yng nghyd-destun cyllid, economeg a busnes.

**Accounting and Finance for Specialists**
Byddwch yn archwilio themâu o faes cyfrifeg ariannol gan gynnwys cyfrifeg llif arian, rhestr eiddo a phartneriaeth, ac yn cael eich cyflwyno i'r meddalwedd cyfrifiadurol a ddefnyddir ar gyfer cyfrifeg ariannol. Ym maes cyfrifeg reoli, byddwch yn cwmpasu cyfrifo ar gyfer gorbenion, Dadansoddiad Elw-Cost-Nifer, a'r defnydd o ddata cyfrifeg i wneud penderfyniadau. Byddwch yn parhau â'ch astudiaethau ym maes cyllid trwy archwilio technegau prisio, gwerthuso buddsoddiadau, a chydsoddiad a chaffael.

**Economic Theory and Policy**
Byddwch yn parhau â'ch astudiaethau ym maes economeg trwy ymchwilio i ystod eang o bynciau ym maes microeconomeg a macroeconomeg. Ymhlith yr hyn sy'n cael ei gwmpasu bydd y damcaniaethau neoglasurol ac amgen ynghylch cwmnïau; cyflogaeth, diweithdra a'r farchnad lafur; tlodi ac anghydraddoldeb; polisïau macroeconomaidd ariannol, cyllidol ac ochr gyflenwi; masnach ryngwladol a globaleiddio; ac economeg amgylcheddol.



# Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

## Y manteision

**Dosbarthiadau bach, cyfeillgar**
Mae ymchwil yn dangos bod myfyrwyr sy'n dysgu mewn dosbarthiadau bach yn tueddu i ennill marciau uchel. Mae dosbarthiadau bach hefyd yn gyfeillgar. Fe gei ymuno â chymuned fywiog o fyfyrwyr eraill sy'n astudio trwy'r Gymraeg.

**Gwarant o Diwtor Personol Cymraeg**
Efallai dy fod yn teimlo'n fwy hyderus ac yn fwy cyfforddus yn Gymraeg, a bod y gallu i sgwrsio yn Gymraeg gyda dy diwtor yn bwysig i ti.

**Cefnogaeth Ariannol**
Mae ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg. Hefyd, bydd myfyrwyr sy'n astudio dros bum credyd y flwyddyn drwy'r Gymraeg yn derbyn Ysgoloriaeth Astudio drwy'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth yn awtomatig.

**Dulliau dysgu arloesol**
Mae modiwlau cyfrwng Cymraeg yn defnyddio nifer o dechnegau blaengar, megis cipio darlithoedd, deunyddiau dysgu amlgyfrwng, fideo-gynadledda, sesiynau preswyl ag ymarferwyr proffesiynol ac adnoddau ar-lein sy'n cefnogi'r dulliau dysgu mwy traddodiadol.

**Datblygu geirfa a sgiliau trawsieithu**
Tra'n astudio trwy'r Gymraeg, bydd angen iti wneud defnydd o ddeunyddiau dysgu yn Saesneg (ac ieithoedd eraill o bosib). Mae'r broses o drawsieithu - defnyddio gwybodaeth a geir mewn un iaith mewn iaith arall - wrth ysgrifennu nodiadau ac asesiadau yn dy gynorthwyo i ddeall a dehongli deunydd darllen yn well. Mae hyn hefyd yn gyfle rhagorol i ddatblygu geirfa bwnc-benodol a fydd o fantais iti yn y gweithle.

## Cyflogadwyedd

Mae'r gallu i gyfathrebu'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn ysgrifenedig ac ar lafar yn sgìl fanteisiol iawn yn y gweithle, ac mae astudio trwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn datblygu'r sgiliau hyn ac yn rhoi mantais iti yn y farchnad swyddi, nid yn unig dros ymgeiswyr di-Gymraeg ond hefyd ymgeiswyr sy'n medru'r Gymraeg ond sydd heb ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu i lefel raddedig.

Mae 99% o'r graddedigion a fu'n astudio trwy'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth mewn swydd neu addysg bellach chwe mis ar ôl graddio o'i gymharu â 91.8% nad oedd wedi astudio trwy'r Gymraeg (Higher Education Statistics Agency, 2018). Hefyd, mae cyflog graddedigion sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Pam mae sgiliau dwyieithog yn bwysig i gyflogwyr?

- Yn y sector cyhoeddus, mae gofyn statudol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.
- Gan fod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth Cymraeg yn y sector cyhoeddus, maent yn disgwyl yr un lefel o wasanaeth yn y sector preifat.
- Mae cwsmeriaid/cleientiaid yn gwerthfawrogi cael gwasanaeth yn Gymraeg.
- Mae dangos parch at gwsmeriaid/cleientiaid a'r gymuned ehangach drwy ddarparu profiad Cymreig yn bwysig i enw da'r busnes neu wasanaeth.
- Gellir ehangu'r farchnad darged trwy ddenu cwsmeriaid/cleientiaid newydd a'u cadw.
- Maent yn teimlo cyfrifoldeb cymdeithasol i gefnogi iaith a diwylliant y gymuned a thrwy hynny hybu cydraddoldeb.





# Y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Fel myfyriwr sy'n siarad Cymraeg, cei ymuno â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol - sefydliad cenedlaethol sy'n chwarae rhan allweddol mewn cynllunio, cynnal a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion.

Mae cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gyfrifol am Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.

Cei ddod yn aelod o'r Coleg hyd yn oed cyn dechrau yn y brifysgol. Un fantais o wneud hynny yw i gael gafael ar y rhif aelodaeth y byddi di ei angen wrth wneud cais am un o'r ysgoloriaethau.

## Ysgoloriaethau

**Prif Ysgoloriaeth - £1,000 y flwyddyn**

Mae'r cynllun Prif Ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gradd sy'n cynnwys o leiaf 240 credyd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg - sef o leiaf 80 credyd drwy'r Gymraeg ym mhob blwyddyn.

**Ysgoloriaethau Cymhelliant - £500 y flwyddyn**

Mae'r cynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gradd sy'n cynnwys o leiaf 120 credyd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pwnc cymwys, o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg ym mhob blwyddyn.

## Manteision bod yn aelod o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Fel aelod, cei wybodaeth o bob math, o'r cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, i'r newyddion diweddaraf am ysgoloriaethau a gweithgareddau academaidd a chymdeithasol y Gangen. Byddi'n dod yn aelod o gymuned y Coleg a chymdeithas Gymraeg fywiog Aberystwyth.

Cei hefyd ddewis cymryd gwersi i wella dy Gymraeg os wyt ti angen magu ychydig o hyder.

**Sut mae gwneud cais?**

Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: **www.colegcymraeg.ac.uk/cy**

# Modiwlau Cyfrwng Cymraeg Yr Ysgol Fusnes

Dysgir y modiwlau canlynol ym Mlwyddyn 1 yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda darlithoedd a seminarau:

- Hanfodion Rheolaeth a Busnes
- Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes
- Seminarau cyfrwng Cymraeg:
- Hanfodion Cyfrifeg a Chyllid
- Modiwl dewisiol ar rai cynlluniau gradd:
- Sgiliau Dwyieithog ar gyfer y Brifysgol a'r Gweithle

Mae'r modiwlau canlynol ym Mlwyddyn 2 a 3 yn cael eu dysgu trwy ddarlithoedd yn Saesneg a seminarau yn y Gymraeg:

- Rheolaeth Marchnata
- Rheolaeth Adnoddau Dynol
- Gweithrediadau a Rheoli'r Gadwyn Cyflenwi
- Entrepreneuriaeth a Chreu Menter Newydd
- Rheoli Cyrchfannau ac Atyniadau
- Ymddygiad Defnyddwyr a Phrynwyr
- Dadansoddi Busnes Strategol a Gwydnwch Gweithrediadau
- Dulliau Ymchwil
- Arweinyddiaeth Strategol
- Traethawd Hir

Mae'r modiwl isod yn fodiwl dewisiol sydd yn cyfri fel modiwl cyfan gwbwl cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 3 oherwydd mai dim ond seminarau sydd ar gael:

- Sgiliau Cyflogadwyedd ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol

Gallwch ysgrifennu a chyflwyno eich asesiadau ar gyfer unrhyw fodiwl trwy gyfrwng y Gymraeg.



# Staff yr Ysgol Fusnes sy'n Gymry Cymraeg

## Jonathan Fry



**Darlithydd mewn Busnes a Rheolaeth a Chydlynydd Darpariaeth Cymraeg yr Ysgol Fusnes**

**Cyflwyniad:** Yn wreiddiol o Gaerdydd, mae Jonathan yn gyn-fyfyriwr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd, wedi graddio gyda gradd BA (Anrh) mewn Rheoli Digwyddiadau (2010), PgC Ymchwil Cymdeithasol (2014), MPhil (2014) a PGCE PcET (2018). Yn 2012, lansiodd Jonathan ei gwmni gwerthuso digwyddiadau ei hun o'r enw Event Rater Cyf. Enillodd y cwmni wobr 'Cwmni Digidol Gorau' (Rhanbarth Cymru a De Lloegr) yng nghystadleuaeth Banc Lloyds yn 2014. Ar hyn o bryd mae Jonathan yn gwneud ymchwil doethuriaeth o fewn yr adran sydd yn archwilio ystyriaethau ymddygiad defnyddwyr a phrisio ynglyn â phrynu tocynnau digwyddiadau VIP a wynebwerth.

**Modiwlau cyfrwng Cymraeg mae Jonathan yn eu cydlynu:** Egwyddorion Marchnata ac Ymarfer Cyfoes; Dulliau Ymchwil; Rheolaeth Adnoddau Dynol; Rheolaeth Marchnata; Ymddygiad Defnyddwyr a Phrynwyr; Rheoli Cyrchfannau ac Atyniadau a Sgiliau Cyflogadwyedd ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol.

**Diddordebau Ymchwil:** Rheoli Digwyddiadau, Gwerthuso Digwyddiadau, Cwsmeriaid Digwyddiadau, Technoleg Digwyddiadau, Marchnata Digidol, Marchnata, Entrepreneuriaeth.

**E-bost:** jof36@aber.ac.uk

## Nerys Fuller-Love



**Darllenydd**

**Cyflwyniad:** Mae Nerys wedi ysgrifennu erthyglau ar amrywiaeth eang o faterion rheolaeth megis Busnesau Bach yn y Cyfryngau, Entrepreneuriaeth Benywaidd, Rhwydweithiau, Strategaeth a TG. Mae Nerys wedi bod ar fwrdd golygyddol yr International Journal of Gender and Entrepreneurship ac mae hi hefyd wedi golygu rhifyn arbennig o'r International Entrepreneurship and Management Journal ar Entrepreneuriaeth Benywaidd a Lleiafrifol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Nerys wedi codi arian i ymchwilio i neu wedi bod ynghlwm â phrosiectau ymchwil sydd wedi'u cyllido â gwerth €4.5miliwn.

**Modiwlau cyfrwng Cymraeg mae Nerys yn eu cydlynu:** Hanfodion Rheolaeth a Busnes; Entrepreneuriaeth a Chreu Menter Newydd; Traethawd Hir.

**Diddordebau Ymchwil:** Rheolaeth ac Entrepreneuriaeth.

**E-bost:** nnf@aber.ac.uk

## Dr Wyn Morris



**Darlithydd mewn Rheolaeth a Chyfarwyddwr Ymgysylltiad Allanol yr Ysgol Fusnes**

**Cyflwyniad:** Yn gyn-fyfyriwr o Brifysgol Aberystwyth, graddiodd Wyn yn 2001 gyda gradd BSc mewn Rheoli Adnoddau Gwledig. Fe astudiodd MSc Econ mewn Entreprenwriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn 2018 fe gwbwlhaodd Wyn astudiaeth PhD gyda'r teitl: Mabwysiadu Technoleg, Entreprenwriaeth ac Effeithlonrwydd Mewn Busnesau Amaeth: Yr Achos ar gyfer Ffermwyr Ucheldir yng Nghymru.

Y tu allan i fyd gwaith, mae Wyn yn aml yn beicio ar draws fynyddoedd Ceredigion. Cyn iddo roi'r gorau i chwarae rygbi oherwydd anaf, roedd yn chwarae yn aml dros Glwb Rygbi Aberystwyth a'r Brifysgol. Mae Wyn yn awr yn hyfforddi timoedd rygbi iau a mae ganddo ddiddordeb mawr mewn amaeth.

**Modiwlau cyfrwng Cymraeg mae Wyn yn eu cydlynu:** Dadansoddi Busnes Strategol a Gwydnwch Gweithrediadau; Arweinyddiaeth Strategol.

**Diddordebau Ymchwil:** Amaeth ac Incwm Gwledig, Arallgyfeirio ac Entreprenwriaeth, Systemau Cynhyrchu Anifeiliaid, Mabwysiadu Technoleg mewn Amaeth, Troseddau Gwledig ac Amaethyddol, Rheoli'r Gadwyn Cyflenwi.

**E-bost:** dnm@aber.ac.uk

# Cyfleoedd allgyrsiol

## yn yr Ysgol Fusnes

Er mwyn llwyddo mewn marchnad swyddi gystadleuol, bydd arnoch angen gradd a fydd yn rhoi cyfle ichi serennu. Pan ddewch yma'n fyfyriwr i Ysgol Fusnes Aberystwyth byddwn yn gweithio gyda chi er mwyn sicrhau bod gennych chi'r sgiliau a'r profiad i ddechrau ar yrfa wych.

### Sgiliau Cyflogadwyedd ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol


Mae gennym fodiwl 'Sgiliau Cyflogadwyedd ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol' sydd wedi'i gynllunio ag amcan penodol ac sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr y drydedd flwyddyn gael profiad yn y gweithle gyda chyflogwyr blaenllaw o'r sector cyhoeddus a phreifat. Mae'n fodiwl a chanddo gredydau a gellir ei astudio yn ystod y semester ar y cyd â modiwlau eraill. Ceir cyfleoedd neilltuol i fyfyrwyr weithio mewn sefydliadau masnachol neu elusennol neu ym maes llywodraeth neu awdurdodau lleol. Bydd hyn yn galluogi i fyfyrwyr fynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd, gan gyfrannu'n ystyrlon ar yr un pryd at waith y sefydliad sy'n eu croesawu.

Mae'r Ysgol Fusnes hefyd yn gartref i'r Gymdeithas Fusnes ('The Biz') a'r Gymdeithas Economeg, sydd ill dwy'n cynnig cyfleoedd am brofiad gwaith, yn ogystal â chyfle i drafod materion busnes a rheolaeth â phobl debyg mewn lleoliad anffurfiol.

### Blwyddyn mewn Diwydiant (y Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith)

Gwahoddir yr holl fyfyrwyr o'r DU/UE sy'n astudio yn Ysgol Fusnes Aberystwyth i gymryd rhan yng Nghynllun Blwyddyn mewn Gwaith y Brifysgol, ac yn wir cânt eu hannog i wneud hynny. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle ichi dreulio blwyddyn mewn cyflogaeth â thâl rhwng ail a thrydedd flwyddyn eich astudiaethau. Trwy gymryd rhan yn y cynllun Blwyddyn mewn Gwaith cewch brofiad gwerthfawr o gyflogaeth, a chewch ddatblygu'r sgiliau personol a phroffesiynol trosglwyddadwy hynny y mae cyflogwyr graddedigion yn chwilio amdanynt mewn ymgeiswyr.





Adeilad Hugh Owen, cartref Ysgol Fusnes Aberystwyth

# Cyfleoedd byd-eang

**Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth cyffrous o opsiynau ichi fynd dramor tra byddwch yn astudio am eich gradd.**

**Bydd ein tîm Cyfleodd Byd-eang yn eich helpu chi i nodi'r opsiwn gorau.**

## Manteision astudio a gweithio dramor

- Rhoi hwb i'ch hyder
- Gwella'ch sgiliau cyfathrebu, rhyngddiwylliannol a rhyngbersonol
- Meithrin eich hyblygrwydd a'ch gwytnwch
- Eich helpu i fod yn agored i gyfleoedd rhyngwladol
- Buddiol i'ch gyrfa.





**Blwyddyn neu semester dramor**

Rydym yn cynnig ystod o raddau sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn eich trydedd flwyddyn lle cewch astudio dramor mewn prifysgol sy'n un o'n partneriaid. Bydd myfyrwyr iaith hefyd yn treulio eu trydedd flwyddyn yn astudio neu'n gweithio yn yr iaith y maent yn ei hastudio.

Gall myfyrwyr ar y rhan fwyaf o gyrsiau gradd eraill fynd dramor am semester yn ystod eu hail flwyddyn astudio.

**Gweithio dramor yn ystod eich blwyddyn mewn diwydiant**

Os ydych chi'n astudio gradd sy'n cynnwys blwyddyn mewn diwydiant, gallwch ddewis treulio'r flwyddyn gyfan neu ran o'r flwyddyn yn gweithio dramor, os yw eich adran yn cymeradwyo hyn.

**Rhaglenni byrion**

Gall treulio cyfnod dramor, hyd yn oed am gyfnod byr, fod yn brofiad gwirioneddol werthfawr. Rydym yn cynnig cyfnodau byrion lle gallwch astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor, o dri diwrnod i wyth wythnos.

**Cefnogaeth**

Bydd y tîm Cyfleoedd Byd-eang yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich profiad dramor. Mae'r cymorth yn cynnwys:

- Digwyddiadau cyn ymadael i sicrhau eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl ar ôl ichi gyrraedd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gennych yr holl ddogfennau teithio angenrheidiol. Byddwch hefyd yn dysgu sut i wneud y gorau o'ch taith a sut i gael cymorth os bydd ei angen arnoch chi.
- Bydd gweithdai yn digwydd ar ôl ichi ddychwelyd sy'n cael eu cynnal ar y cyd â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. Bydd y rhain yn eich helpu i fyfyrio ar eich profiadau a'u defnyddio yn eich bywyd bob dydd ar ôl ichi ddod adref. Byddant yn eich helpu i ystyried sut i sôn am eich profiad dramor mewn ceisiadau am swyddi ac mewn sgyrsiau â chyflogwyr y dyfodol.

**Cyllid**

Mae arian ar gael drwy gynlluniau llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru sy'n hyrwyddo astudio a gweithio dramor i gefnogi myfyrwyr cymwys â chostau byw a theithio.

Mae Cronfa Cyfleoedd Ewropeaidd Aberystwyth, a sefydlwyd drwy rodd hynod hael gan un o gyn-fyfyriwr y Brifysgol, yn unigryw i Aberystwyth ac mae'n darparu cymorth ariannol i helpu â gweithgareddau byrion yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae cyllid ychwanegol ar gael i fyfyrwyr o grwpiau difreintiedig.















# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 31 Ionawr. Côd sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

**GAIR I GALL:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**GAIR I GALL:** Defnyddiwch Hwb UCAS i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar Hwb UCAS

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd Hwb UCAS yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio.

## 7 Dechreuwch bacio!








Ysgol Fusnes Aberystwyth,
Adeilad Hugh Owen,
Campws Penglais,
Prifysgol Aberystwyth,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3DY

+44 1970 62 2500

abs-enquiries@aber.ac.uk

/AberBusinessSch

@ABSAberUni

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2023.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%